

Pam Cerdded?

Mae hon yn ardal wledig hyfryd gyda golygfeydd godidog ar hyd yr arfordir i Benrhyn Gŵyr a Sir Benfro. Mae rhan o'r daith hefyd yn rhedeg ar hyd llwybr Arfordir Cymru.



Pa mor hir?

8km (5 milltir)



Pa mor anodd?

Nid yw'r daith gerdded yn arbennig o anodd, mae'r rhan fwyaf o'r rhannau ar i fyny yn raddiant rhesymol. Mae rhannau o'r llwybr ar hyd traciau fferm, ond mae rhai rhannau'n croesi caeau sy'n gallu bod yn fwdlyd ar ôl glaw.



Man cychwyn - Pentref Glanyfferi



Parcio - ✓ Mae maes parcio ger canol y pentref wrth fan dechrau/gorffen y daith gerdded.



Trafnidiaeth gyhoeddus - ✓ Mae Glanyfferi wedi'i leoli ar brif reilffordd a gellir cyrraedd Glanyfferi yn hawdd o Gaerfyrddin, Abertawe neu Lanelli.




Amwynderau - ✓ Er nad yw Glanyfferi yn bentref mawr, mae ganddo siop, caffi a thafarn.

Mae pentref Glanyfferi bron yng nghanol Arfordir Bae Caerfyrddin ac yn agos i'r man lle mae tair o brif afonydd Sir Gaerfyrddin yn mynd i mewn i'r môr, sef y Taf, y Gwendraeth a'r Tywi.

Fel y mae'r enw'n awgrymu, roedd Glanyfferi yn groesfan bwysig ar afon Tywi gan ddarparu llwybr byr i bobl leol, masnachwyr a phererinion a oedd yn teithio i'r gorllewin tuag at Dyddewi a Sir Benfro.

Mannau o Ddiddordeb



- 1 Mae'r fflatiau llaid a'r morfeydd heli yn y bae yn safle pwysig i filoedd o rydwyr sy'n gaeafu megis Pibydd, Hutan y Tywod a Rhostogion. Gellir gweld Pibydd Coesgoch a Phiodydd y Môr mewn niferoedd llai drwy gydol y flwyddyn ynghyd â Chrêyr a Hwyaid yr Eithin.
- 2 Sefydlwyd Ysgol Gynradd y pentref ym 1856 gan Gomisiynwyr yr Eglwys ac mae'n parhau i wasanaethu'r gymuned leol.
- 3 Mae'r llwybr ar hyd y Clogwyni yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n 870 milltir (1,400Km) o hyd sy'n dechrau yn Fferi Isaf yn y gogledd ac yn gorffen yng Nghas-gwent yn y de.
- 4 Ceir golygfeydd godidog o'r llain arfordirol ac ar draws bae Caerfyrddin i bentref Llansteffan a Chastell Normanaidd, a adeiladwyd o fewn gwrthgloddiau Bryngaer Oes Haearn.

- 5 Mae pentref Llansaint ar ben bryncyn ac mae ganddo ddrysa o ffyrdd cul sydd yn arwain at yr eglwys. Gellir gweld cerrig arysgrifedig o'r 5ed neu'r 6ed ganrif o hyd ac maent yn rhan o wead yr eglwys. Maent yn gerrig beddau ar gyfer dau unigolyn, Vennissetl a Cimesetl, a allai fod wedi bod yn benaethiaid lleol o dras Wyddelig.
- 6 Rhoddwyd Bryn Tregoning i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan y teulu Tregoning a ddaeth yn wreiddiol o Gernyw. Roedd cyfoeth y teulu yn seiliedig ar y gweithfeydd tunplat yn Llanelli.
- 7 Yr ochr arall i'r rheilffordd ar lan y dŵr mae cerrig Salmon Scar, ac mae modd gweld gweddillion y 'pentref coll' pan fydd y llanw yn isel.